



Pecyn Swydd : Cynhyrchydd

Rydym yn chwilio am berson trefnus ac ymrwymedig i ymuno â ni fel Cynhyrchydd theatr. Bydd y Cynhyrchydd yn gweithio'n agos gyda'n Cynhyrchydd Gweithredol i gydlynu prosiectau creadigol, a gwaith cyfranogi ac ymgysylltu'r cwmni. Mae gan y Cynhyrchydd rôl allweddol i'w chyflawni wrth ddatblygu a chyflwyno Rhaglen Artistig y cwmni, i weithredu strategaeth Cyfranogi'r cwmni a gweithio'n agos gyda'r tîm Marchnata a Chyfathrebu er mwyn datblygu cynulleidfaedd ac ymgysylltu'r cwmni.

Y Cwmni a'i Waith:

Theatr Genedlaethol Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Rydym yn creu profiadau theatr beiddgar, uchelgeisiol, cynhwysol a chofiadwy wrth galon ein cymunedau mewn canolfannau theatr traddodiadol a lleoliadau annisgwyl ledled Cymru a thu hwnt.

Mae uchafbwyntiau diweddar y cwmni yn cynnwys: **Merched Caerdydd / Nos Sadwrn o Hyd**, dwy ddrama gyfoes wedi ei lleoli yn y brifddinas; **Nyrsys**, drama boblogaidd, newydd wedi'i lunio o gyfweiliadau â nyrsys 'go iawn'; **Y Tad** – trosiad poblogaidd Geraint Løvgreen o'r ddrama arobryn Ffrengig *Le Père*; **Y Tŵr**, opera gyfoes mewn cyd-gynhyrchiad â Music Theatre Wales; **Macbeth**, cynhyrchiad safle benodol yng Nghastell Caerffili a'r fenter newydd **Theatr Gen Byw**, oedd yn cynnwys darllediad byw o'r cynhyrchiad i 11 o ganolfannau ar draws Cymru.

Mae'r cwmni'n ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau cyfranogi a datblygu cynulleidfa, a sefydlwyd nifer o bartneriaethau llwyddiannus i sicrhau bod yr hyn a gynigwn yn ystyrlon ac yn ddefnyddiol, a'i fod yn cyrraedd cynifer o bobl ag y bo modd. Mae ein gwaith diweddar yn cynnwys:

- Dwy Stori, Un Llwyfan – project sy'n dod â dwy genhedlaeth at ei gilydd, dan adain Gŵyl Gwanwyn Age Cymru, gyda plant ein Clwb Drama, ar y cyd gyda Menter Gorllewin Sir Gâr.
- Creu pecynnau addysg i gefnogi'r cwricwlwm cenedlaethol a darparu cyfleodd profiad gwaith i ddisgyblion a myfyrwyr.
- Cefnogi dysgwyr drwy greu pecynnau i gyd-fynd a'n cynyrchiadau, trefnu sgysiau cyn sioe i ddysgwyr a darparu ap Sibrwd fel adnodd mynediad.
- Cydweithio gyda Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2018, ac ar brosiect 'Teithio Ymlaen' - Fforwm Ieuenctid Rhanbarthol Gorllewin Cymru ar gyfer pobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.



Theatr Genedlaethol Cymru

Cynhyrchydd

(Producer)

Teitl y Swydd:	Cynhyrchydd
Yn atebol i:	Cynhyrchydd Gweithredol
Cyflog:	£28,000 y flwyddyn
Hyd ac Oriau'r Swydd:	Llawn Amser – 37.5 awr yr wythnos (byddem yn ystyried ceisiadau am weithio hyblyg neu rhannu swydd) Swydd barhaol (wedi cwblhau cyfnod prawf 6 mis)
Gwyliau:	25 diwrnod y flwyddyn + gwyliau statudol.
Lleoliad:	Y Llwyfan, Caerfyrddin, ond gyda'r disgwyliad y bydd y swydd yn cynnwys teithio ledled Cymru, ar adegau.
Dyddiad Cau:	17:00 Dydd Gwener 31 Mai 2019

Dylid dychwelyd eich ffurflen gais i: swyddi@theatr.com neu

Theatr Genedlaethol Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin. SA31 3EQ

Theatr Genedlaethol Cymru

Disgrifiad Swydd: Cynhyrchydd

Prif Ddiben y Swydd:

Mae'r Cynhyrchydd yn cefnogi ystod o brosiectau a chynyrchiadau Theatr Genedlaethol Cymru. Mae'n gweithio'n agos gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol i gydlynu prosiectau creadigol, a gwaith cyfranogi ac ymgysylltu'r cwmni. Mae gan y Cynhyrchydd rôl allweddol i'w chyflawni wrth ddatblygu a chyflwyno Rhaglen Artistig y cwmni, i weithredu strategaeth Cyfranogi'r cwmni a gweithio'n agos gyda'r tîm Marchnata a Chyfathrebu er mwyn datblygu cynulleidfaoedd ac ymgysylltu'r cwmni.

Ar y cyfan, mae'r Cynhyrchydd yn cynorthwyo'r Cynhyrchydd Gweithredol i gydlynu a rheoli prosiectau'r cwmni, drwy ddarparu cymorth cynhyrchu o ddydd i ddydd, ond mae disgwyl ar adegau i'r Cynhyrchydd arwain ar rai prosiectau. Mae hefyd disgwyl i'r Cynhyrchydd ymchwilio i bartneriaethau posibl a datblygu perthynas dda gydag ystod o sefydliadau ac unigolion er mwyn cryfhau cysylltiadau'r cwmni.

Yn adrodd i'r

Cynhyrchydd Gweithredol

Cyfrifoldebau Rheoli Llinell

Staff prosiectau a gweithwyr llawrydd yn ôl y galw

Gweithio i ThGC

Mae gan bob aelod o staff Theatr Genedlaethol Cymru rôl sylweddol i'w chwarae er mwyn cyflawni nodau'r Cwmni. Mae'r staff i gyd yn hyrwyddwyr ar gyfer gwaith ac ethos y cwmni, ac anogir staff y Cwmni i fynd i weld gwaith, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyflwyno artistiaid newydd ac aelodau o'r gymuned i Theatr Genedlaethol Cymru a helpu i ddatblygu syniadau creadigol ar gyfer y dyfodol. Mae presenoldeb yn ystod cyfarfodydd y Cwmni yn rhan werthfawr o swydd pawb. Y tu hwnt i dasgau penodol pob disgrifiad swydd, mae'r gweithgareddau hyn ledled y Cwmni yn rhan allweddol o gyfraniad a llwyddiant pob aelod o'r staff.

Prif Gyfrifoldebau a Thasgau Allweddol

- Cynhyrchu Prosiectau Creadigol y Cwmni
- Cydlynu Gweithgareddau Cyfranogi ac Ymgysylltu
- Cydlynu Gweithgareddau Datblygu Artistig
- Datblygu partneriaethau a chyfleoedd i gydweithio

Cynhyrchu Prosiectau Creadigol y Cwmni

- Cynhyrchu prosiectau creadigol y cwmni, cynyrchiadau llwyfan yn bennaf, i safon uchel drwy weithio'n agos gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol i reoli amserlen; cytundebu; cyfathrebu gyda rhanddeiliaid, a rheoli cyllideb.
- Gweithredu polisiau a phrosesau recriwtio mewn perthynas â phrosiectau creadigol y cwmni, a negodi a llunio cytundebau gydag actorion, asiantaethau, timoedd artistig, awduron, cyfieithwyr, cyfarwyddwyr, curadiaid a chrewyr theatr.
- Sicrhau bod ffactorau megis hygyrchedd ein gweithgareddau ac amrywiaeth ein cynulleidfa a'n gweithwyr yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chynhyrchu.

- Trefnu teithiau o gynyrchiadau'r Cwmni i ganolfannau perfformio, gan negodi telerau ariannol, a threfnu lleoliadau ar gyfer cynyrchiadau'r cwmni mewn safleoedd arbennig, mewn cydweithrediad â'r Cynhyrchydd Gweithredol a'r Pennaeth Cynhyrchu.
- Cydweithio gyda'r Adran Farchnata i godi proffil gweithgareddau'r Cwmni.
- Cefnogi'r Cynhyrchydd Gweithredol gyda'r nod o gyflawni'r targed ar gyfer nifer y mynychwyr a nodir yng Nghynllun Busnes y cwmni.
- Meithrin cyfleoedd i gryfhau proffil y cwmni yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Cyfrannu at werthuso cynyrchiadau a phrosiectau, gan sicrhau bod cyfleoedd i ddysgu yn cael eu nodi a'u cymhwyso i gynllunio a darparu gweithgareddau yn y dyfodol.

Cydlynu Gweithgareddau Cyfranogi ac Ymgysylltu:

- Cefnogi'r Cynhyrchydd Gweithredol i ddatblygu strategaeth Cyfranogi y cwmni, sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ar draws Cymru, ac o wahanol gefndiroedd, gymryd rhan yn y celfyddydau, ac sydd hefyd yn cefnogi Rhaglenni Artistig a phrosiectau creadigol y cwmni ac yn cyfoethogi profiad cynulleidfaoedd ac ymgyfranogwyr.
- Cefnogi'r Cynhyrchydd Gweithredol i weithredu strategaeth Cyfranogi y cwmni, mewn cydweithrediad â'r Swyddog Cyfranogi, gyda'r nod o gyflawni'r targed ar gyfer nifer yr ymgyfranogwyr a nodir yng Nghynllun Busnes y cwmni.
- Adnabod cyfleoedd a chynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau cyfranogi sy'n cyflawni nodau strategol y cwmni.
- Cynhyrchu prosiectau cyfranogi y cwmni i safon uchel, yn cynnwys adnabod hwyluswyr, amserlennu, cytundebu, cyfathrebu a rheoli cyllideb.
- Cydweithio gyda'r Adran Farchnata i godi proffil gweithgaredd cyfranogi'r Cwmni.
- Cyfrannu at werthuso'r gwaith cyfranogi, gan sicrhau bod cyfleoedd i ddysgu yn cael eu nodi a'u cymhwyso i gynllunio a darparu gweithgareddau yn y dyfodol.

Cydlynu Gweithgareddau Datblygu Artistig

- Cefnogi'r broses o ddatblygu gwaith newydd drwy fonitro amserlen datblygu gwaith newydd a chydweithio gyda'r Tîm Artistig (yn bennaf y Cyfarwyddwr Cyswllt a'r Cyfarwyddwr Artistig) i sicrhau bod cerrig milltir yn cael eu cyrraedd ar amser.
- Cefnogi'r Cynhyrchydd Gweithredol i gytundebu awduron, dramodwyr a dramaturgiaid.
- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig, y Cyfarwyddwr Cyswllt a chyfarwyddwyr llawrydd wrth gastio cynyrchiadau'r cwmni.

Datblygu Partneriaethau a chyfleoedd i gydweithio

- Adnabod cyfleoedd i gydweithio a chyd-gynhyrchu gyda chwmnïau a sefydliadau eraill.
- Adnabod cyfleoedd i ddatblygu cynulleidfaoedd, yn unol â strategaethau'r cwmni.
- Adnabod cyfleoedd i gydweithio ar brosiectau cyfranogol oddi mewn a thu allan i'r diwydiant theatr.
- Darparu cymorth cynhyrchu i brosiectau lle mae'r cwmni yn bartner.
- Cydweithio gyda'r Adran Farchnata i godi proffil gweithgareddau partneriaeth a chydweithio'r cwmni.

Cyffredinol

- Cynrychioli'r cwmni mewn amryw o ddigwyddiadau ac adrodd arnynt i'r cwmni.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol ar gais y Cynhyrchydd Gweithredol.

MANYLEB PERSON

	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau a Hyfforddiant		
Cymhwyster proffesiynol (gradd/diploma) ym maes theatr neu ddrama		✓
Profiad		
Profiad o reoli neu gydlynu prosiectau creadigol	✓	
Profiad o reoli neu gydlynu prosiectau theatr ar daith yng Nghymru		✓
Profiad o reoli neu gydlynu prosiectau creadigol cyfranogol ac addysgol		✓
Profiad o ddatblygu incwm a chodi nawdd		✓
Profiad o wneud ceisiadau am grantiau		✓
Gwybodaeth		
Ymwybyddiaeth drwyadl o'r byd celfyddydol a diwylliannol Cymraeg a Chymreig	✓	
Gwybodaeth am ymarferwyr creadigol yng Nghymru a thu hwnt, e.e. actorion, cyfarwyddwyr, cynllunwyr		✓
Ymwybyddiaeth o anghenion y sector addysg a datblygu sgiliau		✓
Sgiliau		
Y gallu i feddwl yn greadigol, a dyfeisio prosiectau creadigol a chyfranogi mentrus a dychmygus	✓	
Y gallu i gyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i safon uchel	✓	
Sgiliau rhagorol ym maes technoleg gwybodaeth	✓	
Y gallu i reoli nifer o brosiectau ar yr un pryd	✓	
Y gallu i weithio fel aelod o dîm ac yn annibynnol	✓	
Y gallu i reoli cyllidebau yn effeithiol	✓	
Sgiliau rhagorol mewn trefnu a rheoli amser	✓	
Trwydded yrru gyfredol	✓	